

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Bro Morgannwg

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Fro Morgannwg i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Bro Morgannwg wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Bro Morgannwg wedi cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg wedi bod drwy gyfnod o newid yn sgil trosglwyddo pum llyfrgell i'r gymuned yn 2016-17. Mae ei berfformiad yn parhau i adlewyrchu effaith y newidiadau hyn, er bod peth gwelliant i'w weld mewn meysydd allweddol, ac mae'r gwasanaeth wedi nodi ymhle y mae ei Lyfrgelloedd Cymunedol angen cefnogaeth bellach. Mae symud i'r System Rheoli Llyfrgell (LMS) ledled Cymru gyfan hefyd wedi effeithio ar berfformiad mewn rhai meysydd, a dylai'r rhain fod wedi'u datrys yn ystod 2018-19. Mae oriau agor yn parhau i fod yn is na'r lefelau a osodwyd, a nodir eu bod yn debygol o aros felly yn y tymor byr, gan fod yr awdurdod o'r farn fod yr oriau presennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned. Bydd lefelau bodlonrwydd yn dod yn amlwg pan fydd y gwasanaeth yn cwblhau ei arolygon maes o law.

- Cyflwynodd Bro Morgannwg bedair astudiaeth achos yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth yn ei gael. Er bod ei Lyfrgelloedd Cymunedol yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr, nid ydynt eto mewn sefyllfa i ddarparu rhaglen lawn o gefnogaeth sgiliau, er bod iechyd a lles yn cael eu cefnogi'n dda ynddynt.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi gostwng, a hyn hefyd yn adlewyrchu'r llai o hyfforddiant sydd ar gael mewn lleoliadau Cymunedol.
- Croesawir y cynnydd eto yn nifer y mynychwyr mewn digwyddiadau / gweithgareddau yn 2017-18, gyda'r perfformiad yn ôl i fod yn uwch na lefel y canolrif.
- Mae'r targedau derbyniadau wedi'u cyflawni, ond ar lefel is oherwydd problemau yn deillio o drosglwyddo i'r system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan ac wrth brynu stoc. Mae'r buddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg yn parhau'n gryf.
- Mae lefelau staffio wedi cynyddu, yn sgil cynnwys ffigyrau ar gyfer staff achlysurol, ond ni chyflawnir y targed cyffredinol ar gyfer y staff. Mae'r gwasanaeth nawr yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig, er y nodir bod y cynnydd yn hyn o beth yn ymwneud â staff nad ydynt wedi'u cyflogi mewn rolau proffesiynol.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng eto yn 2017-18, gyda chyfanswm yr oriau agor blynyddol ymhlith yr isaf yng Nghymru erbyn hyn.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â

thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Bro Morgannwg yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac wedi methu â chyflawni un. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i adolygu ei bolisiâu a'i strategaethau, a sicrhau bod y wybodaeth hon yn haws cael gafael arni, ond nid oes strategaeth ar hyn o bryd; unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, caiff hawl graidd 12 ei chyflawni. Mae llyfrgelloedd yn agored i holl aelodau'r gymuned ac yn cynnig lle cyhoeddus hygyrch a chroesawgar, ynghyd â mynediad di-dâl i ystod eang o adnoddau. Mae'r gwasanaeth yn aelod gweithredol o bartneriaeth Books4U, ac ymunodd â system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan yn 2017-18. Roedd gan y gwasanaeth gyllideb farchnata benodol i hyrwyddo ei wasanaethau a phresenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 7 yn llawn, dau yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1 o'r dangosyddion.

Dangosydd ansawdd		Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	x	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

O'i gymharu â'r pumed fframwaith, cafwyd gwelliannau yn erbyn DA 3, gyda datblygiad darllenwyr bellach wedi'i gefnogi'n llawn ym mhob llyfrgell, DA 10 lle mae canran y gwariant sy'n cael ei wario ar adnoddau Cymru bellach wedi'i gyflawni, a DA 13 lle cafwyd gwelliannau o ran nifer y staff cymwysedig a chanran yr amser a dreuliodd ar ddatblygiad staff.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Bro Morgannwg arolygon defnyddwyr ym mlwyddyn gyntaf y fframwaith.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>	6/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	91%	15/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Bro Morgannwg bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Grŵp Cynghori'r Ardegau – mae'r grŵp yn cyfrannu at weithgareddau yn y ProTeen Club misol, yn Llyfrgell Penarth ac ar brofiad gwaith / cyfleoedd gwirfoddol i bobl ifanc yno. Mae'r Grŵp wedi rhoi profiad i'r bobl ifanc o gynllunio eu digwyddiadau eu hunain, gan gynyddu eu hunanhyder, cael eu cydnabod am eu cyfraniad a chael pobl yn ymddiried ynddynt.
- Bont-faen yn Dementia Gyfeillgar – cefnogaeth llyfrgell i ddatblygiad cymunedol, gan ddarparu canolfan wybodaeth ar gyfer dioddefwyr dementia a gofalwyr. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn amhrisiadwy fel ffynhonnell cyngor / cefnogaeth, ac fel lleoliad i ddigwyddiadau partneriaid.

- Gweithdai Atgofion – gweithio â grŵp lleol Heneiddio'n Dda i gynhyrchu 'cof-lyfrau' am yr ardal leol, yn ogystal â gweithio â'r gwasanaethau ieuencid i ddatblygu adnoddau darluniadol i gefnogi gwaith yn y dyfodol fel rhan o fentrau dementia gyfeillgar.
- 'Bowns ac Odl' / 'Odl ac Arwyddo' – sesiynau wythnosol i fabanod a phlant bach, sy'n cefnogi dysgu ac yn cynnig lleoliad i rieni newydd gyfarfod; rhoi cymorth cyfoedion i deuluoedd, hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a gwella datblygu cyfathrebu.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Bro Morgannwg ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	24%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	35%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	99%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	85%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	97%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	95%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	9.1
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	33	10/22	10	32	238	59
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	184	12/22	15	199	473	151
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	276	9/22	82	228	684	211
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,079	10/22	2,501	4,047	7,014	4,327
b) rhith-ymweliadau fesul pen	868	11/22	243	866	2,211	922
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	153	12/22	100	154	229	194
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	77	10/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen^	9	12/22	5	9	14	9
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	32%	9/22	14%	27%	67%	34%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	159	2/21	3	31	196	193
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	11,939	1/21	40	1,346	11,939	4,268
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£14,893	6/21	£7,047	£11,915	£17,771	£16,968
b) % ar staff	55%	17/21	44%	63%	75%	51%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	14/21	4%	13%	25%	10%
% ar offer ac adeiladau	2%	19/21	0%	4%	20%	2%
% ar gostau gweithredol eraill;	32%	4/21	0%	18%	37%	37%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£150	12/20	£0	£338	£17,432	£429
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.82	11/21	£1.24	£1.82	£2.41	£3.03
DA 16 Oriau agor #						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.75%	19/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.07%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	5.48%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Bro Morgannwg eto wedi cwblhau ei arolygon defnyddwyr ond nodir y caiff y rhain eu cynnal yn ystod cyfnod y fframwaith. Nid yw pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig rhaglen lawn o sesiynau sgiliau, ac ni roddir cymorth â llythrennedd gwybodaeth a hyfforddiant sgiliau ym mhob un o'r pum Llyfrgell Gymunedol ar hyn o bryd. Mae cynlluniau ar waith i gydweithio â phartneriaid cymunedol i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Ceir darpariaeth lawn erbyn hyn i gefnogi datblygiad darllenwyr, a hynny'n welliant ers blwyddyn olaf y bumed fframwaith, a rhoddir cefnogaeth dda ar gyfer iechyd a lles ym mhob llyfrgell. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng, a hynny'n raddol oherwydd bod llai o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y pum Llyfrgell Gymunedol; mae cefnogaeth wedi'i gynllunio ar gyfer 2018-19 i sicrhau gwell darpariaeth. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n cael cymorth hyfforddiant anffurfiol wedi codi yn 2017-18.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Bro Morgannwg yn dal i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, a chefnogir digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau hefyd wedi cynyddu unwaith eto yn 2017-18 gyda pherfformiad yn ôl uwchlaw lefel y canolrif. Fel arall, mae ffigyrau defnydd yn dangos tuedd gyffredinol ar i lawr, gyda gostyngiadau yn nifer yr ymwelwyr, benthycwyr gweithgar ac aelodaeth llyfrgell. Yr eithriadau yw benthyciadau llyfrau plant, lle nodir bod gwaith ychwanegol gyda phlant a Phob Plentyn yn Aelod o'r

Llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol, a lawrlwythiadau electronig.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Roedd y trosglwyddo i system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan wedi effeithio ar y gwariant ar stoc, wrth amharu ar y broses archebu, a phroblemau staffio o ran archebion plant wedi arwain at beidio gwario'r gyllideb lawn. O ganlyniad, mae gostyngiad amlwg yn y gwariant ar ddeunyddiau yn 2017-18, ond dylai'r materion hyn fod wedi'u datrys yn 2018/19. Mae targed y derbyniadau cyffredinol yn dal i gael ei gyrraedd, a chafwyd cynnydd yn y gwariant ar adnoddau Cymraeg, sy'n golygu bod dwy elfen o DA 10 hefyd wedi'u cyflawni. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi'u cynnal ar lefelau 2016-17, ac mae'r defnydd, er ei fod wedi gostwng ychydig, yn dal i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru fesul pen y boblogaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau, a chafwyd peth gwelliant hefyd.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu ychydig ers 2016-17; mae'r ffigyrau a adroddir yn awr yn cynnwys cyfrifiad ar gyfer staff llyfrgell achlysurol, gyda 10 o gynorthwywyr achlysurol yn gwneud cyfraniad o 31 awr yr wythnos, gan fod wrth gefn ar gyfer gwyliau, swyddi gwag a hyfforddiant. Hyd yn oed gyda'r cyfraniad hwn, nid yw'r targed ar gyfer staff cyffredinol fesul pen y boblogaeth wedi'i gyflawni. Mae nifer y staff cymwysedig a gofnodwyd hefyd wedi codi, gan alluogi'r gwasanaeth i gyrraedd y targed eleni, er y nodir nad yw'r ddau aelod o staff ychwanegol dan sylw yn cael eu cyflogi mewn swyddi a ddynodwyd i fod yn rhai proffesiynol. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi'n gryf mewn hyfforddiant staff yn 2017-18, gyda dim ond un gwasanaeth arall yn bodloni'r gofynion ar lefel mor uchel. Mae Bro Morgannwg hefyd yn cofnodi'r cyfraniad uchaf gan wirfoddolwyr yng Nghymru, gyda 159 o wirfoddolwyr bob un yn rhoi tua 75 awr ar gyfartaledd. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y gwirfoddolwyr yn y pum Llyfrgell Gymunedol sy'n rhan o'r gwasanaeth statudol, lle ceir 125 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 90% o gyfanswm oriau'r gwirfoddolwyr.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw unwaith eto wedi gostwng dros 10% o'i gymharu â'r llynedd, gyda gostyngiadau ar draws yr holl feysydd cyllidebol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol hefyd wedi gostwng ymhellach, ac erbyn hyn maent gryn dipyn yn is na'r lefel darged ac ymhlith yr isaf yng Nghymru. Caiff hyn ei wrthbwysu'n rhannol trwy gyflwyno 16 awr yr wythnos heb staff mewn un llyfrgell, gyda'r tebygolrwydd y gellir ychwanegu oriau ychwanegol heb staff yn 2018/19.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Bro Morgannwg am ei gyfraniad yn ymwneud â themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: Ffyniannus a Diogel, drwy ddarparu mynediad a hyfforddiant TGCh yn ddi-dâl, a chyfleoedd gwirfoddoli; Iach ac Egniïol, trwy ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth iechyd; Uchelgais a Dysgu, drwy gefnogi datblygu sgiliau ar gyfer pob oed; ac Unedig a Chysylltiedig, drwy weithio mewn partneriaeth â phartneriaid yn y sector a sefydliadau'r trydydd sector.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, mae Bro Morgannwg yn nodi datblygiad pellach ei bum Llyfrgell Gymunedol fel blaenoriaeth, gan sicrhau bod cefnogaeth i alluogi cynnig darpariaeth mewn meysydd allweddol. Nodir datblygiad i wireddu manteision llawn system rheoli llyfrgell (LMS) Cymru gyfan, gan gydweithio â gwasanaethau llyfrgell eraill, ynghyd ag adolygiad o sut y gellid cael gafael ar y sgiliau sy'n ofynnol yn swydd wag y Rheolwr Adnoddau oddi mewn i bartneriaeth yr LMS. Nodir hefyd y posibilrwydd o ymestyn y defnydd ar dechnoleg Open+, sydd eisoes yn gwella oriau mynediad heb staff mewn un llyfrgell. Mae cynlluniau gwasanaeth eraill yn cynnwys sefydlu man creu 'Makerspace' yn Llyfrgell Penarth yn ystod 2018/19, a'r posibilrwydd o gydweithio agosach mewn partneriaethau o fewn yr awdurdod.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg wedi bod drwy gyfnod o newid, yn sgil trosglwyddo pum llyfrgell i'r gymuned yn 2016-17. Mae ei berfformiad yn parhau i adlewyrchu effaith y newidiadau hyn, er bod peth gwelliant i'w weld mewn meysydd allweddol, ac mae'r gwasanaeth wedi nodi ymhle y mae ei Lyfrgelloedd Gymunedol angen cefnogaeth bellach. Mae symud i'r System Rheoli Llyfrgell (LMS) ledled Cymru gyfan hefyd wedi effeithio ar berfformiad mewn rhai meysydd, a dylai'r rhain fod wedi'u datrys yn ystod 2018-19. Mae oriau agor yn parhau i fod yn is na'r lefelau a osodwyd, a nodir eu bod yn debygol o aros felly yn y tymor byr, gan fod yr awdurdod o'r farn fod yr oriau presennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned. Bydd lefelau bodlonrwydd yn dod yn amlwg pan fydd y gwasanaeth yn cwblhau ei arolygon maes o law.